## Bod yn Aelod o’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol

### Trosolwg

Fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, gallwch gyfrannu at gorff strategol y sector sy'n dod â chynrychiolwyr ynghyd o'r Pwyllgorau Ardal ledled Cymru i helpu i osod agenda polisi Un Llais Cymru. Byddwch yn goruchwylio ei drefniadau llywodraethu cadarn ac yn ethol ei uwch dîm arwain a phwyllgorau.

Bydd aelodau yn rhannu arfer da gyda chynrychiolwyr Pwyllgorau Ardal eraill, Llywodraeth Cymru, a'r cyfryngau. Byddwch yn trafod datblygiadau gyda llunwyr barn cenedlaethol eraill, a staff Un Llais Cymru.

Mae hon yn rôl genedlaethol bwysig, yn hyrwyddo enw da a statws uchel y sector. Bydd hi’n ofynnol hefyd i ddeiliad y swydd gysylltu â chydweithwyr ar y Pwyllgorau Ardal a hyrwyddo Un Llais Cymru i Gynghorau lleol.

Mae angen i chi fod yn wybodus am y sector, gyda chysylltiadau da â'ch Pwyllgor Ardal, yn angerddol dros gryfhau'r sector cyfan ac yn gallu edrych y tu hwnt i fuddiannau eich Cyngor eich hun. Mae angen i chi fod yn gyfathrebwr da, yn hyderus wrth siarad â'ch cydweithwyr ac yn gallu rhaeadru gwybodaeth o Un Llais Cymru i'ch rhwydweithiau lleol.

Wrth i Un Llais Cymru barhau i fanteisio ar ddatrysiadau digidol dylech fod yn gyfforddus yn cyrchu gwybodaeth o wefannau ac yn cyfathrebu trwy ddulliau digidol.

Fel Aelod o’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, byddwch yn cymryd mwy o ran yng ngwaith Un Llais Cymru mewn sawl ffordd, yn dibynnu ar eich sgiliau, eich uchelgeisiau a’ch dyheadau.

Fel Aelod o’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, byddwch yn ymwneud ag un neu fwy o bwyllgorau canlynol Un Llais Cymru, y Pwyllgor Cydgysylltu Strategaeth, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cyllid, Adnoddau a Dibenion Cyffredinol, Pwyllgor Polisi, Fforwm Cynghorau Lleol Mwy a Llai, Fforwm y Cynghorau.

Fel aelod pwyllgor, bydd disgwyl i chi gyfrannu at ddatblygiad rhaglen waith a chylch gwaith y pwyllgor hwnnw, yn hytrach na chynrychioli buddiannau eich Pwyllgor Ardal neu Gyngor.

Dylai fod gennych wybodaeth a diddordeb yng ngwaith y pwyllgor yr ydych yn ymwneud ag ef. Dylech fod yn barod i drafod gwaith y pwyllgor yn agored, yn gefnogol, a dweud eich barn yn glir, cyn cymryd perchnogaeth ar y cyd o’r penderfyniadau a gaiff eu gwneud yn ddemocrataidd.

### Y Rôl

Bydd cynghorwyr yn gyfarwydd ag elfennau allweddol rôl aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, gan fod y rhain mewn sawl ffordd yn adlewyrchu rôl Cynghorwyr lleol. Fodd bynnag, mae’n ddefnyddiol cofio, er bod llawer o debygrwydd, nad cyngor lleol

yw Un Llais Cymru. Dyma'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer Cynghorau lleol. Bydd adegau pan fydd angen i aelodau’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol drafod materion neu gymryd camau sy’n unigryw i’r rôl.

Mae elfennau allweddol y rôl yn cynnwys:

**(a) Cynrychiolaeth**

Mae aelodau'n cynrychioli eu Pwyllgorau Ardal a'r Cynghorau sy'n aelodau ar y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol. Yn ogystal, mae aelodau'n cefnogi Un Llais Cymru ac yn lledaenu penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol i'w Pwyllgorau Ardal a'r Cynghorau sy'n aelodau.

Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol hefyd yn llysgenhadon cenedlaethol i’r sector. Gellir gofyn iddynt gyfrannu at ddatganiadau i'r cyfryngau, cyfarfodydd â rhanddeiliaid gan gynnwys adrannau'r llywodraeth neu weinidogion. Hyd yn oed pan nad ydynt yn gweithredu’n swyddogol ar lwyfan cenedlaethol, fel aelodau o’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol maent yn gosod esiampl i eraill o ran safonau ymddygiad a moeseg gwaith lle bynnag y bônt.

**(b) Arweinyddiaeth**

Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn gwneud penderfyniadau ynghylch gwaith Un Llais Cymru. Cymerir hyn gyda golwg strategol a chyda'r nod o ddarparu trosolwg a chyfeiriad. Nid ydynt yn microreoli gwaith y sefydliad na'r staff. Trwy hyn maent yn sicrhau bod Un Llais Cymru yn parhau i ddarparu’r cynnig gorau posib i aelodau.

Trwy waith y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, mae aelodau hefyd yn darparu arweinyddiaeth i'r sector cyfan. Maent yn cydbwyso cynrychioli barn eu haelodau lleol â gwneud penderfyniadau er budd cenedlaethol pob Cyngor lleol.

Mae aelodau'n ymwybodol y gall eu penderfyniadau effeithio'n uniongyrchol ar aelod-gynghorau ac enw da'r sector. Felly, maent yn cymryd rhan weithredol mewn dadl ac yn pleidleisio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol,

**(c) Gwybodaeth**

Mae aelodau yn derbyn ystod eang o wybodaeth ar bynciau sy'n berthnasol i waith y Cyngor. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol o'u rhwydweithiau, eu gwybodaeth a'u profiadau eu hunain. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud cysylltiadau gweithredol rhwng rhaglen waith Un Llais Cymru a Phwyllgorau Ardal.

Mae aelodau hefyd yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid cenedlaethol a lleol ac yn rhannu gwybodaeth iddynt i gyd.

**(d) Cyfrifoldeb**

Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol. Maent yn cefnogi penderfyniadau’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gwaith Un Llais Cymru. Mae aelodau hefyd yn annog aelodau newydd o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol i ddod ymlaen.

**Ymrwymiad Amser Bras**

Ynghyd â darllen papurau, gan gadw’n gyfoes â datblygiadau yn y sector, yr ymrwymiad amser yw tua 10 diwrnod y flwyddyn sy’n gosod cyfeiriad strategol cyffredinol Un Llais Cymru.

Mae holl aelodau'r pwyllgor yn cael eu hethol am dymor o ddwy flynedd ac nid ydynt yn derbyn unrhyw dâl.

**Sgiliau a Phrofiad**

Mae Un Llais Cymru yn cydnabod y gwerth enfawr i’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol o gael ystod eang o arbenigedd, safbwyntiau a phrofiadau personol. Nid oes angen ystod ffurfiol o sgiliau nac arbenigedd ar gyfer y rôl, mae pawb yn gyfartal waeth beth fo'u cefndir neu hyd eu gwasanaeth. Mae'r rhestr isod yn grynodeb o rai o'r nodweddion allweddol y gallai aelodau'r Cyngor eu cynnig i'r rôl.

**(a) Barn**

Mae’r cyhoeddiad hwn yn ymgais i grynhoi elfennau allweddol rôl a rhinweddau aelod o’r Cyngor, ond bydd y rôl yn amrywio a bydd amwysedd bob amser. Bydd profiadau aelodau fel Cynghorydd lleol wedi eu galluogi i arfer eu barn eu hunain. Bydd angen i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol gydbwyso amrywiaeth o safbwyntiau (sy’n cystadlu o bosib) gan y Cynghorau sy'n aelodau, eu Pwyllgorau Ardal, swyddogion Un Llais Cymru a'u safbwyntiau personol eu hunain. Eu penderfyniad hwy sydd yn sail i unrhyw benderfyniad, a hwy sy'n gyfrifol am ddefnyddio eu crebwyll eu hunain yn well ynghylch sut i weithredu, gan geisio cymorth lle mae ei angen arnynt.

**(b) Gwerthoedd**

Mae'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio gwerthoedd a gweledigaeth Un Llais Cymru, a bydd aelodau'n cynnal y gwerthoedd hyn. Mae datganiad gweledigaeth Un Llais Cymru i’w weld yn y cynllun busnes strategol presennol. (Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Cyflawni Gweithredol.)

**(c) Cyfathrebu**

Yn eu rôl leol, mae angen i aelodau'r Cyngor fod yn gyfathrebwyr da yn barod. Ar y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, mae pob aelod yn cyfrannu at drafodaethau ac yn cefnogi eraill i gyfrannu. Nid yn unig y gallant siarad yn

hyderus ac yn gryno mewn cyfarfodydd, ond maent hefyd yn barod i gyfrannu at ddogfennau ac adroddiadau ysgrifenedig. Mae aelodau a swyddogion yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu'r medrau hyn. Mae'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn amgylchedd cefnogol lle gellir ymarfer a datblygu'r sgiliau hyn.

**(d) Agwedd**

Mae aelodau'r cyngor yn cydbwyso ystod o ddulliau gweithredu megis bod yn heriol ond yn adeiladol; yn onest ond cefnogol; ymroddedig a ffyddlon ond yn agored ac yn barod i newid. Maent hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy hyfforddiant a datblygiad, yn dilyn newyddion cenedlaethol ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn y sector.

**(e) Personoliaeth**

Mae pob aelod yn dod â'u personoliaeth eu hunain ac mae hyn yn hanfodol i fywiogrwydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol.